

## Cynllunio a'r Gymraeg: arolwg o weithdrefnau awdurdodau cynllunio Cymru

### Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2019 anfonodd Comisiynydd y Gymraeg holiadur at holl awdurdodau cynllunio Cymru, yn gofyn nifer o gwestiynau iddynt am y Gymraeg yng nghydestun eu polisiau cynllunio. Roedd y Comisiynydd wedi cynnal arolwg cynllunio yn 2013 a bu sawl datblygiad yn y maes ers hynny. Trwy gyfrwng Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 daeth y Gymraeg, am y tro cyntaf, yn ystyriaeth mewn deddfwriaeth cynllunio a grëwyd yng Nghymru. Yna, yn Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20, *Cynllunio a'r Gymraeg*. Yn sgil y datblygiadau hyn, y bwriad oedd casglu tystiolaeth bellach am sut mae awdurdodau cynllunio Cymru yn ystyried y Gymraeg wrth eu gwaith.

Derbyniwyd ymateb gan 21 o'r 24 awdurdod erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Dylid nodi bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu fel un awdurdod cynllunio ar y cyd. Yr awdurdodau nad atebodd oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion. Wedi dadansoddi'r ymatebion i'r holiaduron, trefnwyd cyfarfodydd gyda dau o'r awdurdodau a gymerodd ran yn yr arolwg. Pwrpas y cyfarfodydd oedd trafod rhai o'r materion a godwyd yn yr ymatebion a derbyn mwy o wybodaeth yn eu cylch. Cynhaliwyd y ddau gyfarfod yn ystod mis Hydref 2019.

Dylid nodi y mabwysiadwyd 11 o'r Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) a drafodir isod cyn i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym. Mabwysiadwyd pedwar cyn cyhoeddi TAN 20 (Hydref 2013) a thri arall yn fuan ar ôl hynny. Mabwysiadwyd saith arall cyn cyhoeddi TAN 20 (Hydref 2017). Tri yn unig a fabwysiadwyd ar ôl i Ddeddf 2015 ddod i rym ac i'r TAN diweddaraf gael ei gyhoeddi. Mae gan ddau awdurdod Gynllun Datblygu Unedol (CDU) yn hytrach na Chynllun Datblygu Lleol ac maent yn paratoi CDLI ar hyn o bryd. Gweler manylion pellach yn y ddau dabl isod.

<b>Awdurdod cynllunio</b>	<b>Dyddiad mabwysiadu'r CDLI</b>
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	17 Rhagfyr 2013
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	6 Chwefror 2019
Cyngor Bro Morgannwg	28 Mehefin 2017
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	22 Tachwedd 2012
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	23 Tachwedd 2010
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	27 Ionawr 2016
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	24 Hydref 2013
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	25 Mai 2011
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	18 Medi 2013
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	2 Mawrth 2011
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	3 Rhagfyr 2013

Cyngor Caerdydd	28 Ionawr 2016
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	28 Chwefror 2019
Cyngor Dinas Casnewydd	27 Ionawr 2015
Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	31 Gorffennaf 2017
Cyngor Sir Ddinbych	4 Mehefin 2013
Cyngor Sir Fynwy	27 Chwefror 2014
Cyngor Sir Gâr	10 Rhagfyr 2014
Cyngor Sir Powys	17 Ebrill 2018

<b>Awdurdod cynllunio</b>	<b>Dyddiad mabwysiadu'r CDU</b>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	14 Chwefror 2005
Cyngor Sir y Fflint	28 Medi 2011

### Prif gasgliadau'r arolwg

Yn gryno, daethpwyd i'r casgliadau canlynol yn dilyn yr arolwg:

- Mae diffyg cysondeb ym mholisiau cynllunio'r awdurdodau yng nghyd-destun y Gymraeg. Nid oes sicrwydd bod effaith posibl datblygiadau ar y Gymraeg yn cael ei asesu mewn modd dibynadwy, na bod camau addas yn cael eu cymryd i leddfu unrhyw effeithiau niweidiol.
- Mae galw o du'r awdurdodau am ganllawiau clir, cenedlaethol ar asesu effaith ar iaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Yn gysylltiedig â hyn, mae galw am ganolwr annibynnol, arbenigol â'r awdurdod i ddilysu penderfyniadau ar faterion iaith a chynllunio.
- Mae cwestiwn wedi codi ynghylch arbenigedd ieithyddol yn yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd y datblygiad i greu Arolygiaeth Gynllunio benodol ar gyfer Cymru yn gyfle i ystyried hyn ymhellach.

Trafodir y casgliadau hyn isod. Cyflwynir yn gyntaf gwestiynau'r holiadur a chrynodeb o'r atebion a dderbyniwyd. (Caiff Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn eu cyfrif fel un awdurdod.) Yn dilyn hynny, trafodir y materion a gododd yn y cyfarfodydd gyda'r ddau awdurdod a grybwyllwyd uchod.

### Ymateb i'r holiadur

1. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith y **Cynllun Datblygu Lleol** ar y Gymraeg. Os gwelwch yn dda, amlinellwch sut mae'r Awdurdod yn gwneud hynny. Mae croeso i chi gynnwys copi o unrhyw ganllawiau neu dempled perthnasol gyda'ch ateb.

Yn gryno, 15 o'r 21 awdurdod a atebodd a nododd eu bod wedi ystyried effaith eu CDLI ar y Gymraeg.

Nododd deg awdurdod y cafodd y Gymraeg ei hystyried yn arfarniad cynaliadwyedd eu CDLI ac, yn achos pump ohonynt, bod yr arfarniad yn cynnwys nod yn ymwneud â'r Gymraeg. Cynhaliodd un asesiad effaith iaith Gymraeg ailadroddol o'r CDLI.

Cynhaliodd dau awdurdod asesiad effaith ar y Gymraeg wrth baratoi eu CDLI. Roedd un ohonynt wedi cynnal arolwg o ddeiliadaeth cartrefi newydd hefyd. Ystyriodd tri awdurdod arall y Gymraeg trwy asesiad effaith ar gydraddoldeb.

Comisiynodd dau awdurdod astudiaeth ar y cyd o effaith datblygiadau newydd ar gadarnleoedd y Gymraeg, neu ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Nododd awdurdod arall fod fframwaith monitro'r CDLI yn asesu nifer y ceisiadau cynllunio â Chynllun Gweithredu Iaith a ganiateir yn yr ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Cyfeiriodd awdurdod arall at ardaloedd o'r math, gan nodi fod tystiolaeth yn dangos nad yw'n addas eu dynodi yn y sir.

Yn achos un awdurdod, ni chynhaliwyd asesiad effaith penodol ar y Gymraeg ond aseswyd effaith y CDLI trwy'r arfarniad cynaliadwyedd. Roedd yn un o bedwar awdurdod, a fabwysiodd CDLI cyn i Ddeddf 2015 ddod i rym, a gyfeiriodd at ddeddfwriaeth newydd neu ganllawiau diwygiedig (megis TAN 20 a Pholisi Cynllunio Cymru) yng nghyd-destun eu CDLI nesaf a'r Gymraeg. Nododd dau ohonynt y byddai angen ystyried y Gymraeg mewn ffordd fwy cynhwysfawr yn achos y CDLI nesaf.

Mae un arall o'r awdurdodau hyn yn bwriadu comisiynu arfarniad cynaliadwyedd integredig, gan gynnwys asesiad effaith ar y Gymraeg, ar y cyd â dau awdurdod arall. Bydd cyfnod CDLI y tri awdurdod hyn yn dod i ben yn yr un flwyddyn. Roedd un ohonynt wedi penderfynu, wrth lunio ei gynllun cyfredol, nad oedd angen polisi penodol ar y Gymraeg gan mai canran isel o drigolion y sir oedd yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, noda'r CDLI y caiff y Gymraeg ei hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio pan mae hynny'n briodol.

Nododd awdurdod arall hefyd nad oedd angen mynd i'r afael â'r Gymraeg yn y CDLI gan mai canran isel o drigolion y sir oedd yn siarad Cymraeg. Ar sail data'r Cyfrifiad a ddyfynnwyd yn Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad Cynaliadwyedd y CDLI, penderfynodd yr awdurdod na fyddai polisiau cynllunio defnydd tir y CDLI yn cael effaith niweidiol ar gydbwysedd ieithyddol yr ardal gan bod defnydd y Gymraeg yn gyfyngedig yna.

Cyfeiriodd un awdurdod at bolisi penodol ar y Gymraeg yn y CDLI. Eglurodd un arall ei fod wedi comisiynu ymgynghorydd iaith i ystyried y dystiolaeth am y Gymraeg yn y sir er mwyn penderfynu oes angen polisi mwy manwl yn y CDLI y mae'n llunio ar hyn o bryd, ac i helpu i ddatblygu polisi addas os oes angen.

Ni chyfeiriodd dau awdurdod at asesu effaith y CDLI. Cyfeiriodd un ohonynt at ddefnyddio'r Gymraeg yn y broses ymgynghori, ond nid yng nghyd-destun effaith y CDLI ei hun ar yr iaith. Nododd yr awdurdod arall ei fod yn monitro ceisiadau cynllunio yn yr ardal o sensitifrwydd ieithyddol trwy'r CDLI. Yn yr un modd, fodd bynnag, ni chyfeiriodd at asesu effaith y CDLI ei hun. O'r chwe awdurdod na nododd yn glir eu bod wedi asesu effaith eu CDLI ar y Gymraeg, dyma'r unig un a fabwysiadodd ei gynllun presennol ar ôl i Ddeddf 2015 ddod i rym.

## Casgliad

Roedd mwyafrif yr awdurdodau wedi ystyried effaith eu CDLI ar y Gymraeg. Mabwysiadodd wyth ohonynt eu cynllun presennol cyn i Ddeddf 2015 ddod i rym a'r saith arall wedi hynny. Y Ddeddf hon a gyflwynodd y gofyniad i asesu effaith tebygol y CDLI ar y Gymraeg. Nid yw'n eglur pam na nododd chwe awdurdod arall eu bod wedi cynnal asesiad effaith, yn enwedig yn achos yr awdurdod a fabwysiadodd ei gynllun yn dilyn Deddf 2015. Mae hyn yn arwydd o'r diffyg cysondeb yn y maes.

2. Ydy'r Awdurdod yn asesu effaith **ceisiadau cynllunio unigol** ar y Gymraeg?  
Os felly:

- (a) sut mae'n gwneud hynny?

Dyweddodd wyth awdurdod eu bod yn asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol. (Dylid nodi nad yw un ohonynt wedi mabwysiadu CDLI eto. Bwriad yr awdurdod hwnnw yw asesu effaith mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ac, fel arall, asesu effaith wrth baratoi'r CDLI. O'r gweddill, mabwysiadwyd CDLI tri ohonynt ar ôl cyhoeddi TAN 20 (Hydref 2017).) Mae pedwar o'r awdurdodau hyn yn asesu effaith mewn amgylchiadau penodol a nododd un ohonynt yr aseswyd yr holl safleoedd yng nghadarnleoedd y Gymraeg wrth lunio'r CDLI. Nododd un arall ei fod yn asesu ceisiadau yn unol â dau bolisi yn y CDLI. Eglurodd un ei fod yn cynnal asesiad anuniongyrchol yng nghyd-destun y CDLI ac, os oes angen, y gwneir gwaith pellach yng nghyd-destun unrhyw asesiad gan ddatblygwr nad yw'r awdurdod yn fodlon â'i ansawdd. Dywedodd un awdurdod ei fod yn asesu effaith trwy ymgynghori gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a'i swyddog iaith Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol. Dywedodd un arall ei fod yn asesu pob cais cynllunio mawr. Eglurodd un awdurdod nad yw'n cynnal asesiad effaith ffurfiol ond yr ystyrir pob cais cynllunio yn nhermau ei effaith bosibl ar y Gymraeg, yn unol ag Adran 31 Deddf Cynllunio 2015.

Dyweddodd deg awdurdod nad ydynt yn asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol. (Dylid nodi y mabwysiadwyd CDLI/CDU pob un o'r awdurdodau hyn cyn cyhoeddi TAN 20 (Hydref 2017)). Pwysleisiodd dau awdurdod nad oeddent yn gwneud hynny eu hunain, gan bod disgwyl i ddatblygwyr gynnal asesiad effaith neu gyflwyno datganiad neu gynllun mewn amgylchiadau penodol. Eglurodd un arall nad oedd yn asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol fel arfer, gan y gwneir penderfyniadau yn

unol â'r CDLI, ond nodwyd dau eithriad lle comisiynwyd ymgynghorydd iaith/cynllunio i weithio ar ddau achos apêl cynllunio. Yn y ddau achos hyn, caniatodd yr Arolygiaeth Gynllunio y cais. Roedd un yn ymwneud â datblygu unedau byw parhaol yn ogystal ag unedau gwyliau a'r llall yn ymwneud â safle gwyliau. Roedd yr awdurdod wedi gwrthod y ceisiadau gan ei fod yn pryderu am effaith y datblygiadau ar y Gymraeg. Mewn un achos, comisiynwyd ymgynghorydd iaith i werthuso rhesymeg yr awdurdod dros wrthod y cais. Yn yr achos arall, comisiynwyd ymgynghorydd cynllunio i ystyried effaith y datblygiad ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol y gymuned.

Eglurodd awdurdod arall y gwneir penderfyniadau yn unol â'r CDLI a nododd un arall nad oedd angen asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol gan y byddai'n dyblygu sail tystiolaeth y CDLI.

Cafwyd tri ateb amwys i'r cwestiwn. Nododd un awdurdod nad yw wedi asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol hyd yn hyn. Dywedodd awdurdod arall y byddai'n ystyried yr angen yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a TAN 20. Eglurodd un arall nad yw'n hanfodol a'i fod yn dibynnu ar ymholiadau yn ystod y broses ymgynghori.

## **Casgliad**

Gwelir amrywiaeth o ddulliau gweithredu gan yr awdurdodau a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn uchod. Yn achos y rhai a atebodd yn negyddol, diddorol yw nodi bod tri ohonynt yn cyfiawnhau hynny trwy gyfeirio at y CDLI.

(b) beth yw'r meini prawf ar gyfer cynnal asesiad effaith iaith?

Cyfeiriodd wyth awdurdod at feini prawf. Cyfeiriodd un ohonynt at gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'r awdurdod yn cynnal asesiad effaith ar ddatblygiadau o faint penodol. Cyfeiriodd tri arall at ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Mae'r tri hyn yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd yn y cyd-destun hwn. Mae un ohonynt yn gofyn i ddatblygwr gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau. (Noder fod yr awdurdod hwn wedi rhoi ateb negyddol i'r cwestiwn blaenorol.) Bwriad awdurdod arall, sydd heb fabwysiadu CDLI eto, yw y bydd swyddog achos yn cynnal asesiad ar ôl derbyn cais cynllunio. Mae'r trydydd awdurdod yn cynnal asesiad effaith ar ddatblygiadau o faint penodol neu o fath penodol ar hap-safleoedd, yn unol â TAN 20. Cyfeiriodd awdurdod arall at TAN 20 ac at yr angen i gynnal asesiad effaith ar hap-safleoedd mawr lle gellid effeithio ar ddefnydd y Gymraeg. Yn yr achos hwn, golygir ardaloedd lle mae dros 30% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae tri awdurdod arall yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno datganiad neu asesiad effaith iaith yn achos datblygiadau o faint penodol neu o fath penodol. (Roedd dau o'r awdurdodau hyn wedi rhoi ateb negyddol i'r cwestiwn blaenorol.)

Nododd pedwar awdurdod nad oes ganddynt feini prawf. (Roedd dau ohonynt wedi ateb y cwestiwn blaenorol yn gadarnhaol a'r ddau arall wedi rhoi ateb amwys.) Mae

dau ohonynt yn ymdrin â cheisiadau fesul achos ac mewn awdurdod arall, swyddog neu bwyllgor cynllunio sy'n penderfynu ar bob cais.

## **Casgliad**

Unwaith eto, gwelir gwahaniaethau yn y ffordd y mae awdurdodau yn gweithredu, o ddilyn meini prawf amrywiol ar gyfer cynnal asesiad effaith iaith, i benderfynu fesul achos. Golyga hyn fod perygl o anghysondeb, nid yn unig rhwng awdurdodau ond hefyd o fewn yr awdurdodau hynny nad oes ganddynt feini prawf sefydledig.

(c) sawl asesiad effaith iaith a gynhaliodd yr Awdurdod ers i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym?

Ni nododd unrhyw awdurdod ei fod wedi cynnal asesiad effaith iaith. O'r wyth awdurdod a ddywedodd eu bod yn asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol, eglurodd un nad oedd yr awdurdod ei hun yn gwneud hynny. Cafwyd yr un eglurhad gan ddau awdurdod o blith y deg a ddywedodd nad ydynt yn cynnal asesiadau effaith. Nododd un ohonynt fod tri ymgeisydd wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith i'r awdurdod.

Cafwyd un ymateb amwys, gan awdurdod nad yw'n monitro data ar hap-safleoedd.

Wrth ateb y cwestiwn hwn, cododd un awdurdod bryderon am ddiffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol:

"We understand that there is no definition of linguistically sensitive areas currently in place, although authorities are free to define these areas as they wish. But this can lead to inconsistencies and a failure to identify some areas as being linguistically sensitive, where they should be identified as such, or vice versa. Furthermore, setting definitive parameters would be difficult as there are so many variables affecting the language e.g. its use, politics, choice etc. One hopes that these issues may be addressed on a statutory footing in our local policy making procedures (under the Welsh Language Standards (No 1.0) Regulations 2015 and via key policies and strategies from the Welsh Government."

## **Datblygiad pellach**

Bu datblygiad arwyddocaol yn dilyn yr arolwg, pan gymeradwyodd un awdurdod newid i'w bolisi cynllunio. Bwriad y newid yw gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yn achos datblygiadau o bump o dai neu fwy mewn ardaloedd gwledig, a deg o dai neu fwy mewn ardaloedd trefol, beth bynnag yw nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny. Dywedodd un cynghorydd sir bod anghysondeb ledled Cymru ac, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad, nad oes canllawiau clir ynglŷn â diffinio ardal yn un o sensitifrwydd ieithyddol. Ers 2014 roedd gofyn asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg mewn cymunedau yn y sir lle roedd 60% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Bydd y newid polisi yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r awdurdod yn datblygu ei GDLI nesaf ar hyn o bryd.

## Casgliad

Nid yw'r awdurdodau eu hunain wedi asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol ar y Gymraeg ers 2015 o leiaf. Mae pryderon am ddiffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol a diffyg cysondeb ymhlith yr awdurdodau.

### 3. Ydy'r Awdurdod yn gofyn i **ddatblygwyr** gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg yng nghyd-destun datblygiadau unigol?

Mae chwe awdurdod yn gofyn i ddatblygwyr gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg. Mae un ohonynt yn gofyn am Ddatganiad neu Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol, yn dibynnu ar natur neu faint y datblygiad. Mae awdurdod arall yn gofyn am asesiad mewn amgylchiadau penodol, ac un arall yn gwneud yn unol â TAN 20 a meini prawf yn y CDLI. Mae awdurdod arall yn gofyn i ddatblygwyr ddarparu Cynllun Gweithredu Iaith ar gyfer cynigion penodol mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Eglurodd awdurdod arall y gellir gofyn i ddatblygwr gynnal asesiad, yn dibynnu ar natur a lleoliad y datblygiad arfaethedig. Os oes amheuan am ansawdd yr asesiad, gall yr awdurdod gynnal gwaith gwirio pellach ei hun.

Nododd 11 awdurdod nad ydynt yn gofyn i ddatblygwyr gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg. Cyfeiriodd un ohonynt at baragraff 3.3.1 TAN 20, sy'n nodi mai'r awdurdod sy'n gyfrifol am gynnal unrhyw asesiad a phenderfynu ar ei ffurf. Eglurodd un arall ei fod yn cynnal asesiad o effaith unrhyw ddatblygiad o ddeg neu ragor o unedau ar y Gymraeg. Os yw'r asesiad hwnnw yn dangos y gallai'r datblygiad gael effaith niweidiol ar y Gymraeg, gofynnir i'r datblygwr gynhyrchu Cynllun Gweithredu Iaith. Golyga hyn, yn achos dau awdurdod, y gallai'r awdurdod ei hun yn ogystal â'r datblygwr asesu effaith datblygiad mewn amgylchiadau penodol.

Cafwyd pedwar ymateb amwys. Dywedodd dau awdurdod nad oeddent wedi gofyn i ddatblygwr gynnal asesiad effaith hyd yn hyn ond nododd un ohonynt y byddai'n gwneud hynny petai'n ystyried y gallai cais gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Dywedodd awdurdod arall nad oedd gofyniad ffurfiol i ddatblygwyr gynnal asesiadau effaith, ond nododd hefyd ei fod wedi gofyn am un asesiad effaith. Nododd awdurdod arall y gallai ofyn am asesiad ac y byddai'n dilyn canllawiau TAN 20 ac unrhyw arweiniad cenedlaethol arall sydd ar gael. Roedd yr un awdurdod hefyd wedi dweud y byddai'n ystyried cynnal asesiad effaith iaith ei hun, wrth ateb cwestiwn 2 uchod.

## Casgliad

Nid yw mwyafrif yr awdurdodau yn gofyn i ddatblygwyr gynnal asesiadau effaith iaith.

Os felly:

- (a) pa ganllawiau, arweiniad neu feini prawf y mae'n eu darparu i'r datblygwyr ar gyfer gwneud hynny?

Cafwyd manylion gan chwe awdurdod. Dywedodd un ohonynt ei fod yn darparu arweiniad mewn Canllaw Cynllunio Atodol. Dywedodd pedwar arall bod meini prawf yn y CDLI ac arweiniad pellach mewn Canllaw Cynllunio Atodol. Yn achos un awdurdod, eglurodd y byddai ei Ganllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn cynnwys methodoleg ar gyfer cynnal asesiad o ddatblygiad. Gwerthuswyd y canllaw hwnnw gan ymgynghorydd ieithyddol ac ymgynghorydd cynllunio annibynnol. Dywedodd awdurdod arall fod y meini prawf yn cyd-fynd ag Adran 3 TAN 20, sef ar gyfer hap-safleoedd mawr mewn ardaloedd lle mae dros 30% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Cafwyd ymateb amwys gan un awdurdod, a nododd y cynhaliwyd asesiad o effeithiau tebygol y cynllun datblygu adneuo lleol a bod hyn yn rhan o bapur pwnc ar y Gymraeg.

### **Casgliad**

Roedd pob awdurdod oedd yn gofyn i ddatblygwyr gynnal asesiadau effaith iaith yn gallu cyfeirio at feini prawf ar gyfer y gwaith hwnnw.

(b) sawl asesiad effaith iaith a ofynnwyd amdanynt ers i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym?

Dyweddodd tri awdurdod eu bod wedi derbyn asesiadau effaith gan ddatblygwyr ers cyflwyno'r ddeddf. Mewn un sir cyflwynwyd tri Chynllun Gweithredu iaith gyda cheisiadau cynllunio a gosodwyd gofynion ar ddau gais dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn achos awdurdod arall, ni ofynnodd am asesiadau ond derbyniodd rai yn wirfoddol gan ymgeiswyr, yn dilyn y polisi cynllunio a gofynion TAN 20. Mewn sir arall cafwyd 95 asesiad, ar ffurf datganiad neu asesiad effaith.

Nododd awdurdod arall ei fod wedi gofyn am asesiad effaith a'i dderbyn, ond roedd hyn yn perthyn i'r cyfnod cyn cyflwyno Deddf 2015.

Nid oedd chwech o'r awdurdodau wedi gofyn am asesiad effaith ers cyflwyno'r Ddeddf.

Cafwyd un ymateb amwys, gan nad oes gan yr awdurdod yr wybodaeth berthnasol.

### **Casgliad**

Derbyniodd un awdurdod nifer uchel iawn o ddatganiadau/asesiadau effaith iaith (95). Mae hyn yn codi cwestiwn pellach am y diffyg cysondeb yn y modd y mae awdurdodau cynllunio yn gweithredu.

4. Ydy'r Awdurdod yn **ymgyngori â rhanddeiliaid** wrth ystyried effaith datblygiadau ar y Gymraeg?

Dyweddod 11 awdurdod eu bod yn ymgynghori ond ni nododd pob un eu bod yn ymgynghori'n benodol ar y Gymraeg. Nododd un ohonynt (yn ei ymateb i gwestiwn 2a) ei fod yn ymgynghori gydag ysgolion Cymraeg a'i swyddog iaith Gymraeg pan yn berthnasol.

Cafwyd ymateb cyffredinol gan bump o'r awdurdodau uchod. Dywedodd un ohonynt ei fod yn cynnal ymgynghoriad agored i bob rhanddeiliad ar bob cais cynllunio, a nododd un arall ei fod yn cynnal yr holl ymgynghori statudol angenrheidiol gan ddibynnu ar natur y cais. Eglurodd awdurdod arall ei fod, yn unol â TAN 20, yn ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, ynglŷn â natur unrhyw asesiad mae'n ystyried ei gynnal. Mae awdurdod arall yn trefnu cyhoeddusurwydd ac ymgynghori cyhoeddus yn achos pob cais cynllunio unigol. Nododd awdurdod arall ei fod yn ymgynghori ar y Gymraeg yn yr ychydig amgylchiadau lle mae asesiad effaith wedi ei drafod neu ei gyflwyno.

Cafwyd atebion mwy penodol gan bedwar awdurdod arall. Wrth baratoi'r CDLI, dywedodd un awdurdod ei fod yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol (yn ôl y Rheoliadau CDLI) a'r rhai a fynegodd ddiddordeb ac a restrwyd yng nghronfa ddata'r CDLI. Mae'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio yn un gyhoeddus a gall unrhyw un gyfrannu sylwadau. Mae'r Fenter Iaith Leol yn ymgynghorai ar geisiadau cynllunio ac yn derbyn y rhestr gynllunio wythnosol. Os derbynnir cyfraniad ariannol, gall y Fenter Iaith helpu i adnabod sut y dylid gwario'r arian. Nododd awdurdod arall ei fod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â'r ddeddfwriaeth ac wedi adnabod ymgynghoreion penodol â diddordeb yn niwylliant Cymru yng Nghytundeb Cyflawni'r CDLI. Roedd awdurdod arall hefyd wedi adnabod rhanddeiliaid â diddordeb yn niwylliant Cymru wrth baratoi'r CDLI. Cawsant eu cynnwys yn Nghytundeb Cyflawni yr awdurdod ac ymgynghorwyd â nhw ar bob cam o'r broses o baratoi'r CDLI. Mae awdurdod arall yn ymgynghori'n fewnol, am bob cais cynllunio mawr, â thîm sy'n gyfrifol am hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae hefyd yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg wrth baratoi dogfennau polisi cynllunio, megis Canllawiau Cynllunio Atodol.

Dyweddod awdurdod arall ei fod wedi sefydlu grŵp technegol Cynllunio a'r Gymraeg, sy'n asesu asesiadau effaith pan mae'n briodol.

Nid yw wyth awdurdod yn ymgynghori'n benodol ar y Gymraeg. Nododd un ohonynt bod swyddogion y CDLI yn adolygu asesiadau.

Nid atebodd un awdurdod y cwestiwn gan nad oedd wedi mabwysiadu ei GDLI eto.

Cododd dau awdurdod gwestiwn am asesu effaith a'r rhanddeiliaid y dylid eu cynnwys wrth ymgynghori:

“Mae'r Nodyn Cyngor Technegol 20 (Cymru) yn nodi y dylai Asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg fod yn rhan o'r prosesau Arfarnu Cynaliadwyedd. Credai yr Awdurdod y dylai'r Nodyn Cyngor Technegol roi mwy o gyfarwyddyd ar hyn

a pha bwyslais y dylid rhoi ar y canlyniadau yng nghyd-destun canlyniadau eraill e.e. pryd mae'r effaith ar yr iaith yn gritigol ac a ddylid fod yn rhan o effeithiau mwy cyffredinol ar gymdeithas. Heb fwy o gyfarwyddyd fe ellid colli'r pwyslais angenrheidiol ar yr iaith a sut mae hyn yn cymharu gydag effeithiau eraill. Beth fydd canlyniad Arfarniad gwan neu ddiffygiol yng nghyd destun yr iaith Gymraeg? Teimlir bod angen adnabod rhanddeiliad i wirio asesiad gydag elfen ieithyddol gryf. Yn ogystal nid oes cyfarwyddyd i arolygydd ar gyfer faint o sylw dylid ei roi mewn Archwiliad Cyhoeddus. Byddai o fudd hefyd petai rhanddeiliad megis Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi sylw ar asesiadau effaith ar y Gymraeg yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio unigol penodol."

"Nid yw'r gofynion statudol o ran ymgynghori/rhoi cyhoeddusrwydd yn adnabod cyrff sydd yn arbenigo mewn materion ieithyddol/cymunedol (o safbwynt cynllunio defnydd tir a chynllunio iaith), ac felly gofynnir am farn broffesiynol swyddogion sydd a chyfrifoldeb am ddatblygu'r iaith Gymraeg a swyddogion polisi cynllunio (sydd wedi arwain ar baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol) am wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ar ffurf datganiad iaith Gymraeg ac asesiad effaith iaith Gymraeg."

## Casgliad

Mae'r awdurdodau yn mynd ati mewn amrywiaeth o ffyrdd i ymgynghori ar eu CDLlâu ond nid ydynt i gyd yn ymgynghori'n benodol ar y Gymraeg. Diddorol yw nodi bod un awdurdod yn mynd ati yn rhagweithiol i ddiweddarau'r Fenter Iaith leol ar faterion cynllunio a bod gan y Fenter Iaith ran yn y broses o adnabod sut i wario cyfraniadau ariannol a ddaw yn sgil datblygiadau. Ni chyfeiriodd unrhyw awdurdod arall at roi rôl o'r math i sefydliad allanol.

Mae pryderon am yr arweiniad swyddogol a roddir i awdurdodau cynllunio ac awgrymir y dylai'r Comisiynydd roi barn ar asesiadau effaith ar y Gymraeg. Coda hyn gwestiynau pellach am addasrwydd swyddfa'r Comisiynydd i ymgymryd â gwaith o'r math, gan ei fod yn waith arbenigol y mae angen gwybodaeth leol i'w gyflawni'n llwyddiannus.

5. Ydy'r asesiadau effaith iaith a gynhaliwyd yn y gorffennol wedi arwain at **wrthod** ceisiadau cynllunio neu gyflwyno **newidiadau neu amodau cynllunio** er mwyn lliniaru effaith posibl datblygiadau? Darparwch enghreifftiau perthnasol, os gwelwch yn dda.

Gwrthododd dau awdurdod geisiadau cynllunio am resymau yn ymwneud â'r Gymraeg, yn achos pedwar cais yn gyfan gwbl. Mewn un achos, cyflwynodd yr ymgeisydd apêl a methodd yr apêl. Mewn dau achos arall, er i'r awdurdod wrthod y ceisiadau, fe'u caniatwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn dilyn apêl.

Cymeradwyodd pedwar awdurdod geisiadau cynllunio yn ddarostyngedig i amodau a/neu gytundebau Adran 106. Mae'r amodau yn cynnwys tai fforddiadwy ar y safle, amrywiaeth dderbyniol o dai, nifer dderbyniol o dai, gwaith lle mae sgiliau ar ei gyfer ar gael yn lleol, arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus a chyfraniadau ariannol i liniaru effaith y datblygiad ar y Gymraeg.

Nododd un awdurdod ei fod yn bwriadu argymhell gosod arwyddion Cymraeg yn achos ceisiadau cynllunio datblygiadau masnachol.

Dywedodd 12 awdurdod na wrthodwyd ceisiadau ac na osodwyd amodau perthnasol i'r Gymraeg. Cafwyd ymateb amwys gan dri awdurdod arall, nad oedd yn sicr a oedd enghreifftiau o hyn. O'r wyth awdurdod sy'n asesu effaith ceisiadau cynllunio unigol ar y Gymraeg, nid oedd un ohonynt wedi gwrthod cais na chyflwyno newidiadau.

### **Casgliad**

Roedd y cwestiwn olaf hwn yn mynd at graidd pwrpas asesu effaith: beth yw canlyniad y gwaith yn y pen draw? Nifer fach o geisiadau cynllunio a wrthodwyd a chafodd dau o'r penderfyniadau hynny eu gwrthdroi gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Nifer fach o awdurdodau a osododd amodau arbennig wrth roi caniatâd cynllunio. Mae hyn yn codi cwestiynau pellach. Wrth ystyried yr holl amrywiaeth yn y modd y mae awdurdodau cynllunio yn gweithredu yng nghyd-destun y Gymraeg, sut y gellir sicrhau bod effaith posibl datblygiadau ar y Gymraeg yn cael ei asesu mewn modd dibynadwy? Sut y gellir sicrhau bod camau addas yn cael eu cymryd i leddfu unrhyw effeithiau niweidiol? Ni ellir bod yn hyderus, ar sail yr arolwg hwn, bod yr awdurdodau cynllunio yn gweithredu yn y ffordd fwyaf gadarnhaol yng nghyd-destun y Gymraeg.

### **Materion a godwyd yn y cyfarfodydd dilynol**

Trafodir isod y materion a gododd yn ystod y cyfarfodydd gyda'r ddau awdurdod y cyfeiriwyd atynt, gan gynnwys pryderon a oedd yn gyffredin i'r ddau sefydliad.

### **Cynllunio'n hirdymor**

Cyfeiriodd swyddogion un o'r awdurdodau at y ffaith fod natur hirdymor CDLlau yn golygu eu bod yn dyddio pan ddigwydd newidiadau i bolisi cynllunio ar lefel genedlaethol. Er y caiff CDLlau eu hadolygu, nid yw hyn o reidrwydd yn caniatáu ystyriaeth lawn o'r holl newidiadau.

### **Asesu effaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol**

Rhannai'r ddau awdurdod bryderon am asesu effaith ar iaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Roedd un ohonynt wedi gwneud gwaith ymchwil a ddangosodd gymhlethdod barnu'r cysylltiad rhwng datblygu neu beidio â datblygu, a dirywiad neu gynnydd ieithyddol. Dywedodd swyddogion yr awdurdod arall ei fod yn

anodd asesu effaith ar iaith ymlaen llaw, yn enwedig yn achos datblygiadau llai. Eglurwyd mai ychydig o ddatganiadau neu asesiadau effaith iaith yr oedd yr awdurdod yn eu derbyn, a bod y sefydliad yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru drwy ofyn am asesiadau effaith yn achos hap-safleoedd yn unig. Gellid dadlau bod y canllawiau hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r ffaith bod awdurdodau cynllunio yn gyndyn i ofyn am asesiadau effaith iaith a'u bod yn derbyn nifer fach ohonynt yn golygu nad yw llunio na barnu asesiadau o'r math yn derbyn digon o sylw arbenigol.

Gofynnodd y swyddogion am gyngor ar ddiffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Nodwyd bod diffyg data yn creu anhawster, gan gyfeirio at y ffaith mai unwaith bob degawd y cynhelir y Cyfrifiad ac mai ar raddfa lai y cynhelir arolygon eraill. Roedd swyddogion yr awdurdod arall yn gobeithio dynodi'r sir gyfan yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol wrth gyhoeddi eu CDLI nesaf. Byddai hyn yn cyd-fynd â newid polisi arfaethedig, a fyddai'n gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol mewn amgylchiadau penodol, beth bynnag yw nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny. Trafodwyd y gofyn presennol i asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg dim ond mewn cymunedau lle mae canran benodol o'r boblogaeth yn siarad yr iaith. Eglurodd y swyddogion mai yn dilyn cyfarwyddiadau'r Arolygydd Cynllunio a astudiodd y CDLI diwethaf y gosodwyd y trothwy hwn, ac mai dymuniad yr awdurdod ei hun oedd gosod trothwy is. Eglurwyd mai polisi cenedlaethol oedd sail cyfarwyddiadau'r arolygydd a mynegwyd y farn bod tensiwn rhwng polisïau cenedlaethol a dyheadau lleol. Cyhoeddwyd TAN 20 diwygiedig yn ystod cyfnod paratoi'r CDLI a oedd yn gosod pwyslais ar gynnal asesiadau effaith wrth lunio CDLIau yn hytrach nag wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol.

Roedd swyddogion yr awdurdod yn feirniadol o'r diffyg canllawiau cryf, cenedlaethol a geir ym maes asesu effaith iaith, o'i gymharu â meysydd eraill megis amddiffyn rhag llifogydd. Roeddent o'r farn bod rhaid i bob awdurdod cynllunio ymroi amser ac adnoddau yn unigol i'r broses o ddatblygu dull o gynnal asesiadau effaith iaith. Mynegwyd rhwystredigaeth â'r sefyllfa a galwyd am godi materion cynllunio ac iaith i lefel genedlaethol er mwyn cael effaith cenedlaethol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith y gellir troi at awdurdod annibynnol, megis Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i ddilysu penderfyniadau ar faterion cynllunio eraill, ond nad oes sefydliad arbenigol, annibynnol y gellir gofyn iddo awdurdodi penderfyniadau ar faterion iaith. At hynny, codwyd cwestiwn am arbenigedd Arolygwyr Cynllunio ym maes iaith. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y sylwadau a nodwyd uchod am y cyfarwyddiadau a roddir i arolygwyr a'r ceisiadau cynllunio a ganiatawyd gan arolygwyr pan gafwyd apêl, yn erbyn dymuniadau awdurdodau cynllunio.

## **Ymgynghori**

Gofynnwyd i'r awdurdodau am rôl ymgynghoreion allanol wrth asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg. Dywedodd swyddogion un o'r cynghorau eu bod yn ymgynghori â'r Fenter Iaith leol wrth baratoi'r CDLI a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar y Gymraeg. Eglurodd y swyddogion y byddent hefyd yn ymgynghori â'r Fenter Iaith yn

achos cais cynllunio unigol, petai amheuaeth am effaith bosibl y cynllun. Cyfeiriodd yr awdurdod arall at fforwm rhanddeiliaid a oedd yn ymgynghori ar y CDLI, gan gynnwys Dyfodol yr Iaith a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Pwysleisiodd yr un awdurdod ei fod bron yn rhy hwyr i gynnal ymgynghoriad pan dderbynnir cais cynllunio oherwydd dylanwad y CDLI ar ei benderfyniadau.

## **Addysg**

Eglurodd swyddogion un awdurdod eu bod yn ceisio sicrhau bod eu cynlluniau datblygu yn cyd-fynd â chynlluniau addysg y sir. Roedd gwaith ar y gweill i symud ysgolion y sir ar hyd y continwmm ieithyddol er mwyn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dywedodd swyddogion cynllunio yr awdurdod arall eu bod yn cydweithio'n agos â swyddogion addysg. Trafodwyd cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir yn sgil datblygiad mawr arfaethedig ac ymhlith y materion cysylltiedig cafwyd cyfeiriad at ddarpariaeth addysg Gymraeg.

Roedd y datblygiad dan sylw yn destun cytundeb Adran 106 rhwng yr awdurdod a'r datblygwr. Bwriedir i'r datblygiad gynnwys nifer fawr o dai ac ysgol newydd. Un o amodau'r cytundeb yw bod y datblygwr yn talu am fentrau Cymraeg yn y sir ac am gyflogi swyddog iaith Gymraeg i'w gweithredu. Yn rhan o'i gais cynllunio, cyflwynodd y datblygwr asesiad effaith iaith sy'n cyfeirio, ymhlith agweddau eraill, at ddarparu tir ar y safle ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Dywedodd swyddogion yr awdurdod nad oedd cyfrwng iaith yr ysgol arfaethedig wedi ei benderfynu eto. Mae cyfle mewn achos o'r math i greu cysylltiad rhwng datblygu, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod a pholisi Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Yn y sefyllfa hon, gallai'r Cyngor weithredu yn unol ag Amcan 4, Pennod 9, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Rhaglen waith 2017-2021*:

“Wrth ystyried cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddwn yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o ddatblygiadau polisi a chynllunio'r awdurdodau lleol, gan gynnwys adnabod cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gytundebau adran 106.”

## **Tai fforddiadwy**

Trafodwyd tai fforddiadwy a nododd swyddogion un awdurdod bod cysylltiadau lleol yn faen prawf y mae rhaid i ddarpar brynwyr tai o'r math ei fodloni. Gallai hyn olygu cynyddu'r posibiliad bod siaradwyr Cymraeg yn elwa ar y ddarpariaeth. Eglurwyd bod nifer o ddatblygiadau yn cynnwys tai fforddiadwy yn unig.

## **Pobl ifainc yn allfudo**

Cyfeiriodd y ddau awdurdod at broblem o safbwynt pobl ifainc yn gadael y sir ac, yn achos un ohonynt, pobl ifainc yn gadael ardaloedd gwledig er mwyn symud i ardaloedd trefol o fewn y sir. Roedd swyddogion yr awdurdod hwnnw o'r farn bod hyn yn gysylltiedig â thuedd gan sefydliadau cenedlaethol i osod model cynllunio

trefol ar ardaloedd gwledig a galwyd am fwy o ystyriaeth i anghenion yr ardaloedd hynny. Yn y sir honno, mae canran y siaradwyr Cymraeg ar ei uchaf yn yr ardaloedd gwledig.

### **Cydweithio rhyng-sefydliadol**

Gofynnwyd i'r awdurdodau am gydweithio â chynghorau sir eraill. Mae un ohonynt yn cydweithio'n glos ag awdurdod cyfagos sydd yn dilyn amserlen debyg yng nghydestun ei GDLI. Llunnir y ddau gynllun ar wahân ond mae swyddogion y ddau awdurdod yn cydweithio ar rai agweddau o'r gwaith cysylltiedig. Cynhaliodd un o'r cynghorau astudiaeth ar ran y llall ar ddeiliadaeth cartrefi newydd. Eglurwyd bod cydweithio yn digwydd ymhlith swyddogion cynllunio yn ehangach ar draws y rhanbarth hefyd. Mae hyn yn cynnwys rhannu arfer da, gwaith ymchwil a chostau'r gwaith pan fydd hynny'n bosibl. Nid oedd bwriad cynllunio'n rhanbarthol yn ffurfiol, fodd bynnag, o safbwynt llunio Cynlluniau Datblygu Strategol.

Eglurodd swyddogion yr awdurdod arall eu bod wedi cynnal trafodaethau gyda chynghorau sir eraill yn y gorffennol ond na fu datblygiadau pellach, yn rhannol oherwydd bod pob awdurdod yn dilyn amserlen wahanol o ran ei GDLI. Ni wnaethpwyd penderfyniad ffurfiol hyd yn hyn o safbwynt llunio Cynllun Datblygu Strategol gydag awdurdodau cyfagos. Nodwyd, fodd bynnag, fod cyfleoedd eraill ar gyfer sbarduno cydweithio, megis cynllun Arfor.

### **Casgliad**

Dengys yr hyn a drafodwyd mewn mwy o fanylder yn y cyfarfodydd yr heriau a rhai o'r cyfleoedd y mae awdurdodau yn eu hwynebu yng nghydestun cynllunio a'r Gymraeg. Nid yw'r awdurdodau yn hyderus yn eu hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gyfundrefn gynllunio oherwydd eu canfyddiad o ddiffygion yn yr arweiniad sydd ar gael iddynt o fewn polisïau a chanllawiau cenedlaethol. Ar y llaw arall, maent wedi adnabod cyfleoedd trwy gydweithio ag awdurdodau eraill ac yng nghydestun darparu addysg cyfrwng Cymraeg a thai fforddiadwy. Mae prif gasgliadau'r arolwg, a restrwyd uchod, yn amlygu sawl mater y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn diogelu'r Gymraeg yn y gyfundrefn cynllunio a sicrhau cysondeb yn y modd y mae awdurdodau cynllunio yn gweithredu ledled Cymru. Mae cyfle i gyflawni hyn trwy gydweithrediad rhwng yr awdurdodau eu hunain, Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.